



**The Senedd Cross Party Group on Renewable and Low Carbon Energy**  
**Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel**

12.00 - 1.00pm, Tuesday 27<sup>th</sup> September 2022

12.30 - 1.30yp, ddydd Mawrth 27 Medi 2022

Online meeting / Cyfarfod ar-lein

Minutes / Cofnodion

Energy Prices, Geopolitics, and the Cost of Living Crisis

Prisiau Ynni, Geowleidyddiaeth, a'r Argyfwng Costau Byw

### Aelodau'r Senedd

Delyth Jewell AS (Cadeirydd)

### Siaradwyr gwadd

Juliette Sanders, Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Energy UK

Professor Calvin Jones, Athro Economeg, Ysgol Busnes Caerdydd

### Yn Bresennol

Andrew Donald

Andy Billcliff

Calvin Jones

David Sprake

Delyth Jewell

Eleri Morgan

Ffion Davies

Jen

Juliette Sanders

Kate Mitchell

Lydia Godden

Neil Lewis

Rob O'Dwyer

Robert Jervis-Gibbons

Rosemary Grogan

Ryland Doyle

Trevor Hunter

Ben Coates

Jon Fox

Seumas Skinner

Cathy Owens

Matthew Hexter

Lara Stace

R Johnson

Neil Foxall

Andy Regan

Eleri Davies

David Clubb

Aled Rowlands

Alexander Gray

Matt Telfer

Jack Wilkinson-Dix

Charles Williams

Ioan Dobbin

Tom Crick

Manon Kynaston

Huw

Gwenllian Elias

Prof Ron Loveland

Gaynor Jackson

Sarah Jones

Chris Jackson

Sara

Alex Scorey

Kevin Ashcroft

Nat Rees

Angharad Davies

David-X.Brown

David Jones

Tony Cooke

Ifer Gwyn

### 1. Croeso a chyflwyniadau

- Croesawodd y cadeirydd y mynychwyr a llongyfarch Rhys Wyn Jones ar ei rôl newydd.
- Eglurwyd y bu ychydig o ad-drefnu ym mhortffolio newid hinsawdd Llywodraeth Cymru lle bydd rhai cyfrifoldebau o'r portffolio newid hinsawdd yn cael eu trosglwyddo i Weinidogion eraill.

### 2. Siaradwyr gwadd

- Croesawodd y cadeirydd y siaradwyr a rhoddodd fywgraffiad byr o bob un.
- Cafwyd cyflwyniadau gan Juliette Sanders, Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Energy UK a'r Athro Calvin Jones, Athro Economeg, Ysgol Busnes Caerdydd.

### 3. Cwestiwn ac Ateb



*C. Mae Llywodraeth Newydd y DU wedi nodi cryn newid mewn polisi mewn perthynas â rhywfaint o'r rhethreg rydym yn ei glywed. Pa effaith y credwch y gallai hynny ei chael ar y diwydiant a gallu Llywodraeth Cymru i gyrraedd sero net erbyn 2050?*

A. O ran ffracio a nwy siâl, mae Llywodraeth y DU wedi dweud y byddant yn ystyried hyn o fewn cymunedau sy'n ei gefnogi. Ond nid oes ganddo lawer o gefnogaeth gan y cyhoedd, felly rhaid aros i weld beth ddaw o hynny. Yr hyn sy'n bwysig i ganolbwyntio arno yw bod Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r targedau sero net. Ac mae hynny'n rhywbeth cadarnhaol. Rydym wedi gweld targedau newydd yn cael eu rhyddhau ar gyfer ynni gwynt ar y môr o 50GW erbyn 2030 a thargedau newydd ar gyfer ynni niwclear o 24GW erbyn 2050. Gallai tua chwarter ein trydan ddod o ynni niwclear erbyn 2050. Mae diwygio'r polisi cynllunio ynghylch ynni gwynt ar y tir i'w gysoni gyda seilwaith arall yn allweddol ar gyfer gwynt ar y tir a solar. Dyma rai o'r mathau rhataf o drydan, ac yn gyflym iawn i'w hadeiladu, felly dyna pam eu bod yn parhau i fod yn rhan allweddol o ddod allan o'r argyfwng ynni hwn. Yn bendant bu arwyddion o edrych ar dechnolegau nad ydynt efallai yn cyd-fynd â chyllideb chwe charbon y pwyllgor Newid Hinsawdd. Ond rwy'n meddwl y dylem ganolbwyntio ar y targedau cadarnhaol a mawr sydd gennym yn y DU i gyflawni sero net. (JS)

A. Rwy'n ansicr pam fod Liz Truss yn ymrwymo i wrthdroi'r gwaharddiad ffracio o ystyried pa mor amhoblogaidd ydyw. Byddai angen nifer helaeth o ffynhonnau arnoch i wneud gwahaniaeth i gyflenwad nwy y DU. Byddai'n anodd gwerthu ar y farchnad nwy Ewropeaidd ranbarthol oherwydd bod y bunt yn werth prin ddim. Rwy'n gobeithio na fyddai'n cael unrhyw effaith yng Nghymru. (CJ)

A. Dylwn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud yn glir, unwaith eto, ei hymrwymiad i beidio â chael unrhyw ffracio yng Nghymru. (DJ)

*C. O gofio nad yw polisi ynni wedi'i ddatganoli, beth yw'r effaith fwyaf radical neu fwyaf posibl y gallai Llywodraeth Cymru ei chael ar leihau'r galw am ynni?*

A. Dylai Cymru wario arian ar effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau. Mae'n amlwg mai dyna'r peth rydym yn ei wneud yn anhygoel o wael o ystyried hynny. Bydd 90% o'n tai yn dal i fod gyda ni yn 2050, rydym yn rheoli rheoliadau adeiladu, mae'r dechnoleg yn bodoli, felly ôl-ffitio tai yw'r un peth y byddwn yn canolbwyntio arno. (CJ)

A. Mae gan y DU rai o'r cartrefi lleiaf ynni-effeithlon yng Ngorllewin Ewrop, dyma ddarn coll y drafodaeth bob tro. Mae'n helpu i ddod â biliau i lawr yn y tymor hir ac yn helpu i gynnal diogelwch cyflenwad. Mae manteision economaidd hefyd yn gysylltiedig â datblygu marchnad newydd. (JS)

*C. Mae gan fy nhŷ bwmp gwres, ceir trydan, paneli solar, ac fe'i gwnaed i gyd yn Tsieina, mae'n ymddangos i mi ein bod yn gwbl ddibynnu ar Tsieina ac economïau Asia. Ac yn amlwg rydym yn mynd i gyfoethogi Tsieina a dibynnu arnyn nhw gan ein bod wedi dibynnu ar Rwsia am nwy, felly a oes unrhyw obaith y bydd Ewrop yn cynhyrchu paneli solar?*

A. Yr ateb byr yw na. Pam y byddai buddsoddwyr gwyrdd yn dod i Gymru ar hyn o bryd ac eisiau buddsoddi? Mae Cymru'n rhy fach i gystadlu ar gost a ddim yn ddigon cymwys i gystadlu ar lafur. Mae'n rhaid inni wneud Cymru'n wahanol er mwyn cael arian buddsoddi. (CJ)

A. Mae'r DU wedi datblygu fel arweinydd byd ym maes gwynt ar y môr oherwydd bod y llywodraeth a'r diwydiant yn cydweithio. Mae polisi, fframwaith a thargedau clir a sefydlog yn amlwg yn helpu. Ond hefyd, mae angen ffocws clir ar y gadwyn gyflenwi, a swyddi. Mae gan y diwydiant gwresogi carbon isel potensial ar gyfer twf. Byddai'n ddiddorol gweld lle y gallwn fanteisio ar hynny a meithrin gweithlu gosod medrus. (JS)

*C. Nid gwynt yw'r ateb i'n holl broblemau, heb fod ag agwedd gyfannol at y cymysgedd ynni. Yr hyn rydym yn methu â'i amgyffred yw oni bai ein bod yn adeiladu storfa ar raddfa fawr, gyda'r rownd newydd o ddatblygiadau ynni gwynt ar y môr, nid oes unrhyw fudd gwirioneddol i'r ynni gwynt ychwanegol a gynhyrchir.*



A. Mae system ynni'r dyfodol yn gymysgedd carbon isel gan gynnwys ynni adnewyddadwy a niwclear. Gyda'r llanw nid ydym wedi cael polisi hirdymor, ymroddedig gan y llywodraeth sy'n galluogi buddsoddiad, sy'n ei gwneud yn anodd i gwmnïau fuddsoddi pan nad ydynt yn gwybod beth yw'r dyfodol, neu pa enillion a gânt. Ni allwn gyrraedd sero net gydag ynni adnewyddadwy yn unig. (JS)

A. Mae pobl wedi bod yn siarad am ynni niwclear ers 25 mlynedd, fel achubwr polisi ynni, ond nid oes dim yn digwydd, felly, efallai na fydd yn cyflawni - waeth beth fo ei werthoedd. Nid ydym wedi adeiladu unrhyw rai, felly mae'n annhebygol y byddwn yn datgarboneiddio erbyn 2030 gan ddefnyddio niwclear. Mae storio ynni yn ddud, mae'n rhaid inni ystyried faint o ynni sydd ei angen arnom i ddiogelu ffyniant, diogelwch a sicrwydd sylfaenol yn y DU. Yn anffodus, nid yw unrhyw beth rydym yn ei roi ar waith i ymateb i'r argyfwng hinsawdd, heb sôn am bris tymor byr tanwydd ffosil, yn mynd i fod yno mewn pryd. (CJ)

C. Mae'n ymddangos bod cyfleoedd i gynhyrchu mwy o hydrogen gwyrdd yng Nghymru, ond nid yw'r farchnad ar ei gyfer yn bodoli eto. Mae'n ymddangos ei fod yn sefyllfa iâr ac wy. Dyma un o'r heriau wrth archwilio tanwyddau amgen ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus.

A. Mae'r ddwy dechnoleg hon fel math o danwydd (trydan a hydrogen) yn gystadleuaeth uniongyrchol, nid ydym yn gwybod pa un sydd orau. Y broblem yw, os byddwch yn buddsoddi mewn technoleg ac yn ei chael yn anghywir, gallai fod yn gambl drud na fydd yn talu ar ei ganfed. Dros amser, mae cwmpas llai o feysydd lle y gellid defnyddio hydrogen orau. Mae gennym bellach set o feysydd lle y gellid cymhwyso hydrogen sy'n helpu i ganolbwyntio lle y gallai hydrogen ddatblygu, a gallai rhywfaint o eglurder ddod i'r amlwg. Ond rydym ymhell o hynny eto. (CJ)

C. A allem gael budd cynnwys lleol o wynt alltraeth arnofiol yn y môr Celtaidd?

A. Efallai fod prosiectau'r Môr Celtaidd yn dod i'r lan yng Nghernyw, nid Cymru. Heb set sefydledig o gwmnïau a allai fod yn defnyddio'r maes hwnnw rwy'n meddwl ei fod yn uchelgeisiol. (CJ)

A. Mae gan y cwmnïau hyn oll byrth cadwyn gyflenwi felly os oes cwmnïau sy'n meddwl y gallant gyfrannu, dylent geisio cymryd rhan. (JS)

## 7. Unrhyw fater arall

Dim.

## 8. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Bydd y grŵp yn ceisio cyfarfod unwaith eto ar ddiwedd y flwyddyn hon. Ymhlith y pynciau a awgrymwyd i'w trafod mae'r Môr Celtaidd. Gwahoddwyd Gweinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru i siarad â'r Grŵp Trawsbleidiol. Gwahoddwyd y cyfranogwyr i anfon awgrymiadau o bynciau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.